

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 34

Key language

Fe/Mi
Pa fath o
Pa un/P'un

New Words

Fel mae hi'n digwydd	as it happens
Barus	greedy
Anodd	difficult
Amau	to doubt
Drewi	to stink
Cur pen (NW)	headache
Dim syniad	no idea
Lles	benefit
Dathlu	celebration
Drygioni	evil
Cawod	a shower
Anodd	difficult
Coelio (NW)	to believe
O ddifrif	seriously
Damweiniol	accidentally
Ffaelu (SW)	unable to
Mwrddro	to murder
Digwyddiad	event
Pres (NW)	money
Dal	still
Bygwth	to threaten
Doniol	funny
Gadewch fi fod	leave me alone
Gweiddi	to shout
Hunllef	nightmare
Cas	nasty
Bwganod	ghost
Diogel	safe
Gwahanu	to separate

Main Grammatical Points

Fe fydda i'n mynd or Mi fydda i'n mynd

Short form of the past tense

Fe welais i or mi welais i

The conditional tense

Fe fyddwn i'n mynd mi fyddwn i'n mynd; Fe faswn i'n mynd or mi faswn i'n mynd

The short forms fe hoffwn i or mi hoffwn i

Fe ddylwn i or mi ddylwn i

Generally, but not exclusively Fe is used in South Wales and Mi is used in north Wales

These forms effectively have no meanings and often do not feature in speech. Note however that when this happens the soft mutation remains - for example

Welais i'r bachgen
Fyddda i yna rwan
Ddylet ti fynd.

In more formal Welsh these verbs are not mutated.

Gwelais i
Byddda i
Dylwn i

Fe and Mi are used sometimes to emphasise a verb for example
Mi fyddda i'n mynd – I will be going, Mi welais i or I did see him.

That seems quite a lot to say about two small little words.

Pa fath o

When Brian says that he is going to meet Jac Whelan Wendy asks:
Pa fath o fusnes

Pa fath o means What kind of

Here are some more examples

Pa fath o ddillad wyt ti'n wisgo?	What kind of clothes do you wear?
Pa fath o ffilmiau wyt ti'n wyllo?	What kind of films do you watch?
Pa fath o fwyd wyt ti'n fwyta?	What kind of food do you eat?

Pa un

Pa un which in speech is shortened to P'un means simply which one

P'un wyt ti'n hoffi?	Which one do you like?
Pun ydy dy got di	Which one is your coat?
P'un welodd e	Which one did he see?

Ysbyty Brynaber: Episode 10

Brian, despite his reassurances to his wife, is still deeply involved with Wendy Keating. He takes her out for a drink.

Geirfa

Fel mae hi'n digwydd	as it happens
Barus	greedy
Anodd	difficult
Amau	to doubt

Golygfa 1

Brian - ...Owcidowc...Na, na...Dim problema...dim hasl o gwbwl, hen foi...Na, na, mi fydda i'n propio bar y Stag and Head am wyth o'r gloch fel arfer...Hei, chop chop, Jac! Well i mi fynd off y ffôn, neu Duw a wyr beth fydd y bil ga i diwedd y mis...Hwyl am y tro!

Wendy - Nos yfory...?

Brian - Beth?

Wendy - The Stag and Head...Dyna pryd wyt ti'n propo'r bar 'da'r creep Jac Whelan 'na, ie?

Brian - Nage...Fel mae hi'n digwydd...Heno...Ym mhen rhyw hanner awr.

Wendy - You kidding me?

Brian - Sori. Ond mae Jac yn gorfod mynd yn ôl i Birmingham heno. Dyma'r unig gyfle ga i i siarad...

Wendy - What's so important that it can't be discussed over the phone?

Brian - Busnes.

Wendy - Pa fath o fusnes?

Brian - Jyst busnes. Sori. Dw i wedi rhoi fy ngair iddo fo rwan. A dw i'n gorfod mynd a wel...fel'na mae hi...

Wendy - Rho gusan i fi. Un well na honna.

Brian - Paid â bod mor farus.

Wendy - You'll come back to me tonight?

Brian - Wendy...

Wendy - You'll come back. Promise me, Bri? Word of honour?

Brian - Edrycha: ddim 'boy scout' ydw i...

Wendy - Ti ddim yn mynd yn ôl ati hi? Your bitch wife wyt ti? You're not going to crawl back come stop tap tonight to that bog pit of a house full of your usual pathetic guilt and remorse? I'm the one who's pregnant. Not her. Ti yn. Typical...

Brian - Dw i ddim eisiai pigo 'fight' rwan. O.K.? Does gen i ddim amser...

Wendy - Yeah, yeah. You go back to her...

Brian - Look: if you hadn't...

Wendy - Hadn't what?

Brian - Heb wneud pethau yn anodd i fi yn y lle cynta, Agnes would have been none the wiser about us. Ignorance is a good thing. Ac mi faset ti a fi a hi yn hapus o hyd, heb yr holl 'hassles' yma!

Wendy - You just want everything your own way, Brian. But life just doesn't work out like that. What about my needs? Our unborn baby's needs?

Brian - Pam wyt ti'n mynnu codi crachod...?

Wendy - Codi what?

Brian - Crachod.

Wendy - What the hell is crachod?

Brian - Scabs. Your picking a scab. And you know full well what you were doing by confronting Agnes, telling her all about us.....

Wendy - Yes. I had to. Because you dithered. Agnes or me. You just wouldn't decide. And I'm not passive little Wendy. I had to take charge of the situation. Because I don't want to lose you, Bri...

Brian - Trwy yrru tâp wnest ti ohono i ati hi? Deall? Or do you want me to spell it out in plain

English? You taped me, Wendy. You made a secret tape behind my back -

Wendy - Under the table in the pub actually -

Brian - And sent it in the post to my wife. And don't give me your usual Ton-yr-Efail bullshit. O.K.?
That was pure blackmail and nothing else!

Wendy - Achos mod i'n dy garu ti. I only did it because I love you.

Brian - Dw i'n amau weithiau.

Wendy - Beth?

Brian - Dw i'n amau weithiau.

Wendy - What do you mean, ti'n amau weithiau?

Brian - Mae gen ti ffordd ryfedd iawn - you have a very odd way of showing that you love me.

Wendy - That makes two of us then.

Brian - Does gen i ddim eisiau gadael y fflat yma rwan a ti a fi wedi ffraeo...

Wendy - Promise me you'll come back tonight then.

Brian - Alla i ddim.

Wendy - Ti'n gallu dod yn ôl...Pam ddim? Dwed...

Brian - She's talking divorce. Big time...

Wendy - Yeah. Great. It's what we've both wanted all along. Then you're rid of the bitch. Clean out of your life. Mae'r crachen wedi mynd...

Wendy - Isn't it?...Well, obviously not. It's what I've wanted. Beth? What are you afraid of? That she'll fleece you?

Brian - Well i mi fynd. Dw i ddim eisiau bod yn hwyr. Siaradwn ni eto.

Wendy - A Brian? Os wyt ti'n gweld copi o'r Evening Post - wnei di brynu un i fi?

Brian - Dwyt ti byth yn darllen hwnnw...

Wendy - Jyst in case they've found his body. Poor Dic. To die like that...

Brian - Boddi. Uffern o beth...

Wendy - Will there be a funeral?

Brian - Does gen i ddim synaid. Hei! Well i fi fynd.

Ysbyty Brynaber: Episode 101

Brian again tells Agnes that he has brought his affair with Wendy to an end.

Jenny and Agnes meet up in the hospital where they discuss Dic's disappearance and that the whole incident was more than an accident.

Geirfa

Drewi	to stink
Cur pen (NW)	headache
Dim syniad	no idea
Dathlu	celebration
Drygioni	evil
Lles	benefit
Cawod	a shower
Anodd	difficult
Coelio (NW)	to believe
O ddifrif	seriously
Damweiniol	accidentally
Ffaelu (SW)	unable to
Mwrddro	to murder
Digwyddiad	event

Golygfa 1

Agnes - Rhodri! Beca! Mas o'r gwely! Dewch nawr!

Brian - Beth sy'?

Agnes - Coda oddi ar y sofffa...

Brian - Faint o'r gloch ydy hi...?

Agnes - Ugain munud i wyth...

Brian - Ddaeth y bore lot yn rhy ffast.....

Agnes - Pw! Mae'r stafell yma'n drewi o gwrw.....

Brian - Ugain munud i wyth? Dyna beth wnes di ddweud rwan? Mam bach! Mae gen i hymdingar o gur pen...

Agnes - Pryd ddest i nôl 'ma neithwr?

Brian - Dim syniad...

Agnes - Ble fuest ti?

Brian - Stag an'd Head. Hefo Jac Whelan... Tan 'stop tap'.

Agnes - Ag ar ôl hynny...?

Brian - Ar ôl hynny...Cyri Madras, dw i'n meddwl...Ac ar ôl hynny. Does gen i ddim syniad!

Agnes - Yn ôl ati hi? Yn ôl at Wendy Keating?

Brian - Mae Wendy a fi wedi gorffen, Agnes. Mae Wendy a fi yn ffinito binito. Kaput. Mae pob dim rhwng Wendy a fi drosodd.

Agnes - A hithau'n disgwyl dy fabi di? Sut allai pethau fod drosodd? Fydd y peth byth drosodd na fydd?

Agnes - Well i fi alw'r plant. Rhodri! Beca! Dewch - dw i ddim eisie galw arnoch chi'ch dau i godi eto!

Brian - Rhaid i mi gael asbrin neu rywbeth at y cur pen yma...

Agnes - Dere drwodd i'r gegin. Faint yfaist ti neithwr 'te?

Brian - Gormod o'r hanner er fy lles fy hun.

Agnes - Oedd rhyw achos dathlu ...?

Brian - Mae pob cyfarfod hefo Jac Whelan yn troi yn achos dathlu.

Agnes - Neu'n achos drygioni...Well.....?

Brian - Ddim eto. Yn y munud efallai. Diolch.

Agnes - Am beth?

Brian - Bob dim.

Agnes - Pam na ei di lan i gael cawod?

Brian - Dw i'n drewi mor ddrwg â hynny?

Agnes - Wyt. Wy'n siwr byddet ti'n teimlo'n well ar ôl cael cawod.
 Brian - Peth anodd ydy cysgu ar sofffa hefyd. Brafach o'r hanner cysgu mewn gwely.
 Agnes - Mae gwely iti yn y llofft gefn.
 Brian - Oes, dw i'n gwybod.
 Agnes - Dyna ti 'te.
 Brian - Agnes? Pan dw i'n deud fod Wendy Keating a fi yn hen hanes – dw i yn ei feddwl o. Ti yn fy nghoelio fi on'd wyt ti?
 Rhodri - Bore da...
 Agnes - Rhodri - ydy Beca wedi codi eto?
 Rhodri - Wy'n credu ei bod hi.....
 Agnes - Wel, ydy hi neu ddim?
 Brian – Does dim ots. Dw i am fynd i'r ystafell molchi...Ac mi wna i yn siwr ei bod hi allan o'i gwely.
 Agnes - Diolch.
 Brian - Iawn, Rhods?
 Rhodri - Iawn, Dad!
 Agnes - Nawr 'te: beth ti eisiau i frecwast?

Golygfa 2

Agnes – Jenny – Oes eiliad 'da ti?
 Jenny - Oes, wrth gwrs. Be sy'...?...
 Agnes - Becso amdanat ti ydw i. Wythnos dwetha. Pan alwes i heibo'r ty ar fy ffordd gartre o'r gwaith...
 Jenny - Beth felly?
 Agnes - Ti ddim wir yn credu beth ddwedest ti wrtho i wyt ti? ...Am sut wnaeth Doctor Allen...wel...sut wnaeth e fodd?
 Agnes - Gweud hynny oedddest ti achos dy fod ti mewn sioc, ie?
 Jenny - Nage.
 Agnes - O ddifrif?
 Jenny - O ddifrif. Dw i erioed wedi bod yn fwy o ddifrif yn fy mywyd....
 Agnes - Ond damwain oedd beth ddigwyddodd i Dr Allen ar y môr. Damwain a dim byd arall, does bosib...
 Jenny - Nage.
 Agnes - Dere nawr...
 Jenny - Arwyn foddodd o.
 Agnes - Yn ddamweiniol efallai. Achos bod Arwyn ei hunan yn ffaeluo nofio...
 Jenny - Ti'n meddwl?
 Agnes - Dyna beth ddwedodd e wrtho i.
 Jenny - Mae o'n dweud celwydd...
 Agnes - Elli di ddweud wrtho i yn gwmws beth wnaeth ddigwydd ar y cwch 'te?
 Jenny - Fel dwedais i: does dim byd i wybod: ond bod Arwyn wedi boddi Dic....
 Agnes - A beth wyt ti'n mynd i wneud 'bytu hyn?
 Jenny - Dw i ddim yn gwybod.
 Agnes - Ti'n cyhuddo dy wr o'i fwrddro fe....
 Jenny - Ydw. A dw i'n meddwl fod Arwyn wedi amau mod i'n gwybod y gwir...Mae'n rhaid ei fod o... Wedi'r cwbl, ...ers y digwyddiad, mae o wedi bod yn dawel iawn.....
 Agnes - Ond pam fyddai Arwyn yn moyn boddi Richard?
 Jenny - Roedd Dic a fi yn fwy na ffrinida.....

Ysbyty Brynaber: Episode 102

Wendy is trying to persuade Brian to leave his wife. Brian reassures her that he will eventually leave Agnes.

Brian and Agnes' troubles are having a detrimental effect on their son Rhodri.

Geirfa

Pres (NW)	money
Dal	still
Bygwth	to threaten
Doniol	funny
Gadewch fi fod	leave me alone
Rhag ofn	in case
Gweiddi	to shout
Hunllef	nightmare
Cas	nasty
Bwganod	ghost
Diogel	safe
Gwahanu	to separate

Golygfa 1

Wendy - ...What's stopping you, Brian? Nothing. Absolutely nothing at all! Does dim byd yn stopo ti rhag dweud wrth Agnes ble i fynd.....!

Brian – lawn! lawn! Dyna ddigon am heno...!

Wendy - What about me? What about our unborn baby?

Brian - Wendy!

Wendy - We've got all the time in the world you keep on saying. But how much more time does a man need to tell his wife where to go.....?

Wendy - What's wrong? You worried she's going to take you to the cleaners? Is that it? But you could move your assests off shore. Allai Jac Whelan helpu ti wneud hynny. Then you could really tell her where to go...

Brian - Ddim y pres sy'n fy mhoeni i.

Wendy - Wel, beth 'te? Allet ti dal weld y plant...

Brian - Efallai. Ond mi fasai hi'n creu bob math o 'hassles'....

Wendy – ,Hassles' fel beth? Hasls fel beth, Brei?

Brian – Does dim ots. Peint arall?

Wendy - Sit down a minute. Fel beth? What has she – what's the word - bygwth you with? That she won't let you see the kids?

Brian - Y gwnaiff hi bethau yn anodd i mi.

Wendy - That doesn't surprise me. She's always been a vicious, vindictive cow. You remember how she got me sacked from the hospital? Saying how I slapped her...

Brian - Ond mi wnes di ei slapio hi!

Wendy - Do. Ond dim ond ar ôl iddi hi roi slap i fi in the first place.

Brian - Peint arall? Maen nhw wedi canu cloch 'stop tap'. Ac os gei di beint arall, wneith o bara'n hirach...

Wendy - 'Bara'n hirach?' That's taken me back down memory lane big time. Almost like a déjà vu.....Bara'n hirach. Means "it'll last longer..."

Brian - Ia. Para'n hirach. Pam? Be sy' mor ddoniol?

Wendy - Dic Allen.

Brian - Y creadur bach.

Wendy - That's what he said to me once. In this very pub when I first came here to work as a nurse. During Freshers Week it was. Actually, he said it on this very seat. Do you think that's a bad omen? Poor sod. Now food to all those filthy fish in the Irish Sea...

Brian - Dw i'n gofyn eto: ti eisiau peint arall? Am beth ti'n feddwl? Dic Allen?...

Wendy - Ie. Maybe he was the best thing that ever happened to me. And I let him go. Gadael iddo fe fynd to shack up with a stupid dithering half baked prat like you. Boi sy'n gwrthod gadael ei

wraig. I've got to be daft, haven't I?
Brian - Dw i yn mynd i adael Agnes. O.K.?

Golygfa 2

Rhodri - Aaaaa....Aaaa...Aaaaaa... Ddim eto! Na! Na! Gadewch fi fod! Gadewch fi fod!...
Agnes - Rhodri, ...Rhodri - beth sy'n bod...?
Rhodri - Gadewch fi fod.....!
Agnes - Ssssh! Rhag ofn iti ddeffro Beca...Ssssh nawr! Ma' popeth yn iawn.
Rhodri - Ydy Dadi yma?
Agnes - Sa i'n siwr...
Rhodri - Wy eisiau Dadi...Dw i eisiau ei weld e...
Agnes - Gei di weld e'n y bore...
Rhodri - Dw eisiau ei weld e nawr, Mam!
Agnes - Sa i'n siwr os yw e 'ma...
Rhodri - Wy eisiau Dadi nawr...!
Brian - Beth sy'?
Agnes - Brian - ti yma.
Brian - Rhodri, beth ydy'r gweiddi mawr yma? Beth sy'n bod?
Agnes - Dw i'n credu taw cael hunllef wnaeth e...
Brian - Sdim eisiau poeni...Does dim byd drwg yn mynd i ddigwydd iti...
Agnes - Nac oes.
Brian - Dim byd cas o gwbl. Dim bwganod. Dim bwci-bo...
Rhodri - O'n i'n beco bod rhywbeth wedi digwydd i ti, Dadi...
Brian - Fi? Na...Dw i'n iawn...
Agnes - Mae Dadi'n ddiogel...Edrycha...
Rhodri - Ond rych chi'n mynd i wahanu?
Brian - Pwy ddwedodd hynny?
Rhodri - Owain Gwydion. Glywodd e ei dad yn gweud wrth ei fam e fod Brian ag Agnes Rees yn mynd i wahanu.
Rhodri - Mae e'n wir on'd yw e?
Agnes - Pam na wnei di drio cysgu nawr?
Rhodri - Ydy e'n wir, Dadi? Ydy e? Mam? Dwedwch rywbeth! Plis!
Agnes - Smo fe'n wir.
Brian - Na. Dydy dy fam a fi ddim yn mynd i wahanu. Dyn ni'n mynd i fod gyda'n gilydd am byth.
Agnes - Glywest ti, Rhodri?...Nawr cer i gysgu...Cysga'n sownd...Nos da.

Synopsis

Despite Brian Rees' pledge to his wife that his affair with Wendy Keating is over Brian is still seeing the former young nurse. It appears that the whole issue is having a detrimental effect on their son Rhodri.

Jenny has confided in Agnes that she and Dic were more than acquaintances. She added that she believes that Dic's disappearance was not an accident. Arwyn had actually drowned him.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'as it happens'?
 - a) Pryd mae'n digwydd
 - b) **Fel mae'n digwydd**
 - c) Mae'n digwydd bod
2. How would you translate 'Leave me alone' into Welsh
 - a) Gadewch i mi fynd
 - b) **Gadewch i mi fod**
 - c) Gadewch i mi ddod
3. What is the word in north Wales for 'a headache'?
 - a) **cur pen**
 - b) pen mawr
 - c) pen tost
4. What's the Welsh for 'an event'?
 - a) digwydd
 - b) ddigwyddodd
 - c) **digwyddiad**
5. How would you ask 'What kind of business' in Welsh?
 - a) **Pa fath o fusnes?**
 - b) Pwy biau'r busnes?
 - c) Beth fydd y busnes ?
6. What is the Welsh for 'a nightmare'?
 - a) **hunllef**
 - b) hunan
 - c) huno